

1 Ysgol Gynradd Pont-y-clun

Mae'r nodyn yma'n cynnwys crynodeb lefel uchel o'r Datganiad Cynllunio ar gyfer ailddatblygiad Ysgol Gynradd Pont-y-clun.

Trosolwg

Mae'r cais yn ceisio caniatâd cynllunio llawn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) ar gyfer ailddatblygiad safle Ysgol Gynradd Pont-y-clun i ddatblygu ysgol gynradd newydd.

I grynhoi, mae'r cais cynllunio yn ceisio caniatâd ar gyfer y gwaith arfaethedig canlynol:

- Dymchwel adeiladau presennol yr ysgol;
- Darparu ysgol sy'n gweithredu'n adeilad carbon sero-net, gan gynnwys darpariaeth feithrin a chynradd;
- 1 prif adeilad yr ysgol – dros ddau lawr, i gynnwys ystafelloedd dosbarth, manau canolog, manau gweinyddu, prif neuadd a chegin;
- Manau a chyfleusterau awyr agored i gynnwys manau wedi'u tirweddu, canopi, seddi, manau chwarae caled a meddal a llwybr cadw'n heini posibl (*trim trail*);
- 1 Ardal Gemau Aml-ddefnydd, sy'n cynnwys 2 gwrth;
- 2 faes parcio â lle i 43 o leoedd parcio, gan gynnwys 2 le parcio i'r anabl, gyda 10% yn ddarpariaeth gwefru cerbydau trydan;
- 30 stondin beiciau Sheffield dan do;
- Cyfleusterau casglu gwastraff; ac
- Adeiladu dau adeilad dros dro gyda 12 ystafell ddosbarth yn ystod y gwaith adeiladu, a hynny dros ddau lawr.

Mae disgwyl y byddai'r datblygiad, sy'n amodol ar ganiatâd cynllunio llwyddiannus, yn cael ei gyflawni er mwyn bodloni'r targed o ran agor yn yr hydref, 2023.

Angen am ddatblygiad

Mae'r ysgol bresennol mewn ardal ble mae llawer o dai yn cael eu hadeiladu mewn cyfnod byr ac mae angen buddsoddiad arni i fod yn gwbl hygyrch a chyrraedd safon Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Trwy ddarparu adeilad ysgol newydd a chyfleusterau ategol, byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu lle i 540 o ddisgyblion 3-11 oed (480 o ddisgyblion, a dosbarth meithrin â 60 o leoedd).

Cyd-destun y Safle

Mae safle'r cais am y datblygiad arfaethedig yn cynnwys tir Ysgol Gynradd Pont-y-clun, Coedlan y Palalwyf, Pont-y-clun, CF72 9EG. Mae'r safle tua'r de o Heol y Bont-faen (yr A4222), sef y prif lwybr trwy Bont-y-clun o'r gogledd i'r de.

Dydy'r safle ddim yn destun unrhyw ddynodiadau statudol sylweddol mewn perthynas â'r amgylchedd, tirwedd hanesyddol, dynodiadau tirwedd neu ecoleg, a dydy'r rhain ddim yn berthnasol ger y safle chwaith. Dydy'r safle ddim mewn ardal datblygiad risg uchel o ran glo; ac mae gan y safle bosibilrwydd isel o ran risg llifogydd. Ar y cyfan, ystyrir bod gan y safle sensitifrwydd amgylcheddol isel a'i fod yn addas i'w ddatblygu.

Y broses cyn-ymgeisio

O'r cychwyn cyntaf, mae dull cydweithredol wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer y broses cyn-ymgeisio, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned leol. Ymgynghorwyd ag adran Gynllunio RhCT ac ymgynghorai technegol, gan gynnwys Priffyrdd a'r swyddog Systemau Draenio Cynaliadwy, trwy gydol y prosesau datblygu dyluniad a pharatoi'r cais cynllunio.

Asesiad Cynllunio

Mae'r Datganiad Cynllunio yn cynnwys manylion llawn yr asesiad cynllunio yn erbyn ystyriaethau polisi allweddol o ddefnydd y datblygiad arfaethedig; dyluniad; cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd; trafndiaeth a mynediad; amwynder preswyl; sŵn; bioamrywiaeth a gwarchod natur; tirwedd a choed; llifogydd; amodau'r tir; cyfleustodau a gwastraff.

Ystyrir bod y cynigion yn unol â pholisi lleol a chenedlaethol (y Cynllun Datblygu Lleol, Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru). Ar y cyfan, byddai'r datblygiad arfaethedig yn gweithredu'n gyfleuster carbon sero-net newydd ar safle presennol yr ysgol gan ddarparu nifer o fuddion cadarnhaol fel sydd wedi'u nodi yn yr asesiad cynllunio. O ganlyniad i hyn, dylai caniatâd cynllunio gael ei roi.